# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 27.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Annwen Hughes, Chris Hughes

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – THE VENUE, ADEILADAU'R PAFILIWN, ABERMAW**

**__Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod__:**

**Ar ran The Venue,**
**Adeiladau'r Pafiliwn, Abermaw:** Mr Charles William Wright (Ymgeisydd)
Mr Charles Walter Wright

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)
Heddwas Richard Hughes

**Gwrthwynebydd:** Mr Bill Pritchard

1.1 **__DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL__**

Adroddodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog, bod ei ferch-yng-nghyfraith yn byw oddeutu 200 llath o'r eiddo ond nad oedd wedi gwrthwynebu'r cais. Gofynnodd i'r ymgeisydd os oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad iddo wasanaethu ar yr Is-bwyllgor hwn. Cadarnhaodd Mr Charles William Wright nad oedd ganddo wrthwynebiad iddo wasanaethu i'r Is-bwyllgor.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran The Venue, Adeiladau'r Pafiliwn, Abermaw am drwydded eiddo i ymestyn oriau y caniateir gweithgareddau trwyddedig ac ymestyniad ar yr oriau agor i'r cyhoedd. Nodir bod y gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys gwerthiant alcohol, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiad dawns, disco, cyfleusterau ar gyfer dawnsio a darpariaeth lluniaeth hwyr. Gofynnir am estyniad i'r drwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiad dawns, disco, cyfleusterau ar gyfer dawnsio o 19.00 - 3.00 Llun, Gwener a Sadwrn; 19.00 - 23.00 Mercher ac Iau ynghyd a gwerthiant alcohol o 19.00 - 3.00 Llun, Gwener a Sadwrn; a dim ar Fercher, Iau a dydd Sul.

Yn ogystal gofynnir am ymestyn oriau agor ac oriau gweithgareddau trwyddedig (gan gynnwys gwerthiant alcohol) ar gyfer Nos Calan, o ddiwedd yr oriau gorffen arferol hyd gychwyn oriau agor a gweithgareddau trwyddedig y diwrnod wedyn.

1.3 Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiadau fel a ganlyn gan:

- breswylydd cyfagos ar sail atal trosedd ac anrhefn, atal niwsans cyhoeddus a diogelwch y cyhoedd

- y Cyngor Tref mewn perthynas ag ymestyn oriau Nos Calan ar sail atal trosedd ac anrhefn, atal niwsans cyhoeddus, diogelu'r cyhoedd a diogelu plant rhag niwed; mewn perthynas ag ymestyn oriau agor dros y penwythnos ar sail diogelu'r cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus
- yr Heddlu ynglŷn ag ymestyniad arfaethedig i'r oriau agor ar sail botensial mewn cynnydd yn yr achosion o drosedd ac anrhefn ar ôl 03.00. Gofynnir am gyfyngu gwerthiant alcohol ar Nos Lun i ddyddiau Gŵyl y Banc yn unig. Os caniateir y cais, gofynna'r Heddlu am amodau amrywiol ychwanegol ar y drwydded.

Nodwyd nad oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub gwrthwynebiad i'r cais ond fe awgrymir amodau y dylid eu cynnwys yn y drwydded.

1.4 Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

ii. Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

iii. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

iv. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

v. Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

1.5 Wrth gefnogi'r cais, hysbysodd yr ymgeisydd ei fod yn tynnu'r cais ar gyfer ymestyniad i'r oriau agor ar Nos Calan yn ôl oherwydd nad oedd yn fwriad bellach i agor o gwbl ar Nos Calan. Nid oedd yn ymwybodol bod Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu'r cais. Eglurodd yr ymgeisydd ei fod wedi bod mewn busnes ers 30 o flynyddoedd ac fe wneir y cais am estyniad o awr i werthu alcohol yn deillio o newidiadau i'r ddeddfwriaeth trwyddedu sy'n caniatáu i dafarndai fod yn agored i fyny at 1.00 a.m. / 2.00 a.m. Pe byddir yn caniatau'r cais, bwriedir sicrhau y byddai'r adeilad wedi gwagio erbyn 3.30 a.m. ac fe fyddir yn darparu bws cwrteisi i gludo cwsmeriaid o'r Venue, Abermaw i Ddolgellau o ystyried bod 55% o'r cwsmeriaid yn dod o ardal Dolgellau. Cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn cytuno ag argymhellion Rheolwr Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd fel amlinellir yn ei lythyr dyddiedig 21 Mehefin 2012.

1.6 Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd drwy E-bost ac adroddodd yr Aelod Lleol bod y Cyngor Tref wedi cyflwyno sylwadau iddo ef ac fe ddarllenwyd y sylwadau i'r Pwyllgor gan y Rheolwr Trwyddedu. Tra'n deall pryderon yr Heddlu a mwyafrif o aelodau'r Cyngor Tref ynglŷn â gwerthiant alcohol tan 3.00 a.m. roedd yr Aelod Lleol yn croesawu bod yr ymgeisydd yn bwriadu rhoddi bws cwrteisi ymlaen i gludo cwsmeriaid adref ac yn gefnogol i'r cais.

1.7 Cyfeiriodd Mr Ian Williams, Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu, at bryderon yr Heddlu gan nodi ei bod yn 2006 pan oedd yr adeilad dan enw "The Sandancer" wedi gofyn am adolygiad trwyddedu oherwydd problemau hanesyddol o anrhefn. Yn ystod yr adolygiad gofynnwyd am amodau ychwanegol ar y drwydded ac o ganlyniad fe welwyd gwellhad yn y sefyllfa dros y blynyddoedd diwethaf gan nodi llai o alwadau i'r adeilad. Fodd bynnag, roedd ymestyn yr oriau agor yn creu pryder i'r Heddlu oherwydd nad oedd Heddweision ar gael ar ôl 3.00 a.m. gan y byddent yn gorffen shifft am 2.00 a.m. a dim ond 2 Heddwas fyddai'n gyfrifol am Feirionnydd gyfan o 2.00 a.m. ymlaen. Serch hynny, ychydig iawn o dystiolaeth oedd ganddynt i wrthwynebu'r cais heblaw am un digwyddiad ar 24 Mehefin eleni pryd cafwyd anrhefn gyda phedwar unigolyn a ddilynodd iddynt gael eu harestio a nodwyd bod yr ymchwiliad hwnnw yn

parhau. Gofynnir i'r Pwyllgor pe caniateir y cais bod yr amodau canlynol yn cael eu hychwanegu i'r Drwydded Eiddo:

- Bod oriau ar agor i'r cyhoedd ar Nos Lun yn cael ei gyfyngu i Wyliau Banc yn unig.
- Bod angen diwygio oriau agor i'r cyhoedd ar Nos Wener a Nos Sadwrn i 0330 awr er mwyn caniatau hanner awr i wagio'r adeilad
- Bod system Teledu Cylch Cyfyng digidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda'i weithrediad. Bydd yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.
  - ➢ Dylai'r goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sydd yn yr adeilad.
  - ➢ Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.
  - ➢ Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fydd y busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn yna mae'r rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.
  - ➢ Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.
  - ➢ Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.
  - ➢ Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr Heddlu. Bydd unrhyw achos pryd y gofynnir am gofnod o ddigwyddiad ac nad yw ar gael yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Trwyddedu.
- Bod yr eiddo yn gweithredu Cynllun Her 21.
- Bod o leiaf dau staff SIA trwyddedig ar ddyletswydd pob amser, ac wedi hynny cymhareb o un staff SIA trwyddedig i bob 60 cwsmer (neu ran o hynny) uwchben y 120 cwsmer cyntaf.
- Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd alcoholig na diodydd ysgafn wedi'u hagor allan o'r eiddo.
- Bydd yr eiddo yn aelod o'r cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion.

1.8 Nododd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn gohebu â'r ymgeisydd a derbyn manylion perthnasol, nad oedd gan Adran Gwarchod y Cyhoedd wrthwynebiad i'r cais ond fe ofynnir pe byddir yn caniatau'r cais am gynnwys yr amodau canlynol yn ymwneud â sŵn:

(a) ni chaniateir cynnydd yn y lefel LAeq 5munud na'r lefel LAeq 5 munud yn y bandiau amledd trydan wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod diffinnir LAeq yn BS4142:1997.

(b) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (a) rhaid addasu'r ddyfais rheoli sŵn sydd wedi ei gosod yn yr eiddo fel fo cydymffurfiaeth â'r amod.

(c) Bydd arwyddion clir a dealladwy yn cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sydd yn gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, drwy eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau ceir na channu cyrn ceir.

1.9 Manteisiodd y gwrthwynebydd oedd yn bresennol ar y cyfle i ategu'r sylwadau a nodwyd trwy ddau lythyr gan nodi'n benodol ei bryder ynglyn ag yfed a gyrru gan fod cymaint o ddamweiniau wedi digwydd yn y gorffennol ar ffordd yr A496 oriau mân y bore.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn cymryd sylw o'r sylwadau hynny a wneir yn y llythyrau o wrthwynebiad sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth trwyddedu.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd grynhoi ei achos pryd y nodwyd mai'r prif reswm am gyflwyno cais ydoedd ar gyfer ymestyn yr oriau agor. Roedd yr eiddo wedi ei sefydlu ers 30 mlynedd bellach fel clwb nos ac oherwydd newid yn y ddeddfwriaeth trwyddedu roedd hyn wedi effeithio ar fusnes y clwb nos yn enfawr. Felly er mwyn bod ar yr un raddfa â'r tafarndai cyflwynir y cais gerbron ac apeliwyd ar i'r Pwyllgor ganiatáu'r newid i'r oriau.

I gloi, nododd yr ymgeisydd y byddai'n fodlon cydymffurfio â'r amodau ynghlwm i'r drwydded heblaw'r amod yn nodi “dim caniatau mynediad i'r eiddo ar ôl 01:00 awr”.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

<u>Atal Trosedd ac Anrhefn.</u>
Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno gan yr Heddlu oedd yn cyfiawnhau iddynt wrthwynebu'r cais. Ystyriodd yr Is-bwyllgor eu pryderon am y posibiliad o drafferth a'r problemau o ran adnoddau'r heddlu. Ar ôl cymryd i ystyriaeth yr holl sylwadau a wnaed ni welai'r Is-bwyllgor serch hynny dystiolaeth ddigonol i gyfiawnhau dweud y byddai caniatáu'r cais yn arwain at broblemau yn yr eiddo.

<u>Diogelwch Cyhoeddus.</u>
Nodwyd pryderon y gwrthwynebydd ynglŷn â'r perygl o yfed a gyrru, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth yn ymwneud yn benodol gyda'r eiddo ac nid oedd ymddygiad posib cwsmeriaid i fwrdd o'r eiddo yn fater yn fater y gellid ei ystyried. Nodwyd hefyd sylwadau'r Gwasanaeth Tân.

<u>Atal Niwsans Cyhoeddus.</u>
Ystyriwyd y ffaith nad oedd tystiolaeth o unrhyw broblemau yn yr eiddo, ac na dderbyniodd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd gŵyn am yr eiddo am o leiaf y 5 mlynedd ddiwethaf. Nid oedd rheswm i wrthwynebu'r cais dan yr egwyddor hon os cynhwysid yr amodau sŵn a gynigiwyd.

<u>Gwarchod Plant rhag Niwed.</u>
Nid oedd unrhyw dystiolaeth berthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

Felly yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r cais, a chymryd i ystyriaeth yr holl dystiolaeth amlinellwyd yn Neddf Trwyddedu 2003, penderfynodd yr is-bwyllgor i ganiatáu'r newidiadau canlynol i'r drwydded eiddo :-

**(a) Caniatáu oriau agor i'r eiddo hyd at 3.30 a.m. ar ddydd Llun (Gwyliau Banc yn unig), Gwener a Sadwrn.**
**(b) Caniatáu cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiad dawns, disco, cyfleusterau ar gyfer dawnsio yn yr eiddo dan baragraff E, F, G, H, J a K rhwng 19.00 a 03.00 ar Nos Lun (Gwyliau Banc yn unig), Gwener a Sadwrn, a rhwng 19.00 a 23.00 ddydd Mercher ac Iau.**
**(c) Caniatau darpariaeth o luniaeth hwyr yn yr eiddo dan baragraff L o 23.00 i 03.00 Nos Lun (Gŵyl y Banc yn unig), Gwener a Sadwrn.**
**(ch) Caniatau gwerthiant alcohol yn yr eiddo yn unol â pharagraff M o'r cais sef rhwng 19.00 a 03.00 ddydd Llun (Gŵyl y Banc yn unig), Gwener a Sadwrn.**
**(d) Bod y camau a ddisgrifir ym mharagraff P o'r cais i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded i atal trosedd ac anrhefn, niwsans cyhoeddus, diogelu'r cyhoedd a diogelu plant rhag niwed.**

**(dd) bod yr amodau canlynol a argymhellwyd yn cael eu cynnwys yn y drwydded :**

**Amodau'r Heddlu**

**Teledu Cylch Cyfyng**

- **Bod system Teledu Cylch Cyfyng digidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda'i weithrediad. Bydd yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.**
- **Dylai'r goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sydd yn yr adeilad.**
- **Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.**
- **Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fydd y busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn yna mae'r rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.**
- **Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr Heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.**
- **Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.**
- **Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr Heddlu. Bydd unrhyw achos pryd y gofynnir am gofnod o ddigwyddiad ac nad yw ar gael yn cael ei gyfeirio at yr Awdurdod Trwyddedu.**

**Prawf Oedran**

- **Bod yr eiddo yn gweithredu Cynllun Her 21.**

**Goruchwyliaeth Drysau**

- **Bod o leiaf dau staff SIA trwyddedig ar ddyletswydd pob amser, ac wedi hynny cymhareb o un staff SIA trwyddedig i bob 60 cwsmer (neu ran o hynny) uwchben y 120 cwsmer cyntaf.**

**Poteli a Gwydrau**

- **Ni chaniateir i gwsmeriaid fynd â diodydd alcoholig na diodydd ysgafn wedi'u hagor allan o'r eiddo.**

**Gwarchod Tafarndai**

- **Bydd yr eiddo yn aelod o'r cynllun Gwarchod Tafarndai a bydd cynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd y cynllun ac yn cymryd rhan yn holl fentrau'r cynllun. Bydd yr eiddo'n cydymffurfio â holl gyfarwyddiadau Gwarchod Tafarndai, gan gynnwys ufuddhau i Orchmynion Gwahardd mewn perthynas ag unigolion**

**Amodau Sŵn**

**(d) Ni chaniateir cynnydd yn y lefel $L_{Aeq}$ 5munud na'r lefel $L_{Aeq}$ 5 munud yn y bandiau amledd trydan wythfed 31.5, 63 a 125Hz oddi fewn i unrhyw eiddo preswyl (wedi ei fesur gyda ffenestri'r eiddo ar agor neu ar gau) o ganlyniad i sŵn adloniant yn deillio o'r eiddo trwyddedig. I bwrpas yr amod diffinnir $L_{Aeq}$ yn BS4142:1997.**

**(e) Os, wedi cyhoeddi'r drwydded bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn tystiolaeth nad oes cydymffurfiaeth ag amod (a) rhaid addasu'r ddyfais rheoli sŵn sydd wedi ei gosod yn yr eiddo fel fo cydymffurfiaeth â'r amod.**

**(f) Bydd arwyddion clir a dealladwy yn cael eu gosod wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid sydd yn gadael yr adeilad i ystyried trigolion lleol, drwy eu hannog i beidio â gweiddi, clepian drysau ceir na channu cyrn ceir.**

**<u>Amodau'r Gwasanaeth Tân</u>**

a. **Bydd y mwyafrif o bobl a ganiateir i ddefnyddio'r eiddo ar yr un amser yn ddim mwy na 300 person. Neu pa bynnag nifer yn llai na hynny y gellir ymdopi a nhw yn ddiogel o ystyried natur yr adloniant a ddarperir.**

b. **Llyfr Cofnod i'w gadw ac i fod ar gael i'w archwilio gan yr Awdurdod Tân. Dylid cadw cofnodion o'r profion canlynol os ydynt yn llwyddiannus neu beidio:**
   a) **System larwm tân**
   b) **System oleuo argyfwng**
   c) **Offer ymladd tân**
   d) **Ymarferion tân a chyfarwyddid**

**Bydd rhaid diweddaru asesiad tân i adlewyrchu'r newidiadau, yn enwedig y clwb ieuenctid neu ddisgo i ieuenctid, i adlewyrchu eu diffyg ymwybyddiaeth o beryglon tân.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeiswyr o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 2. CAIS AM DRWYDDED EIDDO - GŴYL RHIF6, PORTMEIRION

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

**Ar ran Gŵyl Rhif 6, Portmeirion:** Richard Williams, Cyfreithiwr
Robin Llywelyn, Cyfarwyddwr Portmeirion
David Trefor Jones, Gwyl Rhif 6
Alex Bennett, Gwyl Rhif 6
Hannah Ross-Morris, Gwyl Rhif 6

**Ar ran yr Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru)

**Ar ran y gwrthwynebwyr:** Mr John Payne, Cyfreithiwr
Mr Paul de Thierry, (Perchennog Hafod Cae Maen)

2.1 Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoddi manylion ar gais ar ran FN6 Cyf ar gyfer Gŵyl Rhif 6 a gynhelir ym Mhortmeirion rhwng 14 i 16 Medi 2012 gyda'r bwriad o ddychwelyd i'r lleoliad yn flynyddol. Nodir ei bod yn bosibl caniatáu uchafswm o 14,999 o bobl ar y safle ond am y flwyddyn gyntaf uchafswm o 8,000 o bobl sydd yn berthnasol i'r cais. Nodir bod yr oriau gweithgareddau trwyddedig yn cynnwys gwerthiant alcohol, cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, darpariaeth lluniaeth hwyr, perfformiadau dawns, cyfleusterau ar gyfer gwneud cerddoriaeth, dawnsio, adloniant ynghyd â gweithgareddau fel dangos ffilmiau a dramâu. Bwriedir cynnal y gweithgareddau trwyddedig yn yr awyr agored yn ogystal ag ar

lwyfannau mewn pebyll neu strwythurau dros dro cyffelyb. Darperir cyfleusterau gwersylla ar y safle ar gyfer y rhai sy'n mynychu'r ŵyl.

2.2 Adroddwyd, yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, nad oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i'r cais ac ni dderbyniwyd sylwadau oddi wrth yr Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned. Derbyniwyd dau lythyr o wrthwynebiad gan drigolion cyfagos ond fe dynnwyd un ohonynt yn ôl, ynghyd â llythyr o wrthwynebiad oddi wrth Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd Amgylchedd. Nid oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub gwrthwynebiad ond fe roddwyd sylwadau ar yr amodau.

2.3 Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

(i) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais

(ii) Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

(iii) Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

(iv) Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

(v) Cafodd yr ymgeisydd a deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu Hachos

2.4 I gefnogi'r cais, dywedodd, Mr Richard Williams, Cyfreithiwr oedd yn cynrychioli Gŵyl Rhif 6, ymgeisydd y drwydded eiddo a hyrwyddwr yr ŵyl, fod cyfuniad o grwpiau gwahanol oedd â diddordeb personol yn y prosiect, un o'r rhain oedd Portmeirion Cyfyngedig, perchennog y safle oedd â chyfran o 10% yn y prosiect. Roedd gan Ear to the Ground Ltd hefyd gyfran yn yr ŵyl, sef cwmni oedd wedi rhedeg oddeutu 500 o ddigwyddiadau byw llwyddiannus mewn cyfnod o 9 mlynedd. Roedd gan yr holl garfanau dan sylw brofiad o redeg y digwyddiadau hyn. Dywedwyd y byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal dros gyfnod o dri diwrnod, nid yn unig eleni, ond roedd y cais i gynnal y digwyddiad yn y dyfodol. Rhagwelwyd y byddai'n ŵyl lwyddiannus ac o fudd economaidd i'r ardal.

Cyfeiriodd Mr Williams at y pecynnau o gopïau papur a gyflwynwyd i'r Cyngor a chyfeiriodd at amryfal rannau o'r pecyn fel a ganlyn:

(a) gosodiad y safle yn dangos pentref Portmeirion a safle'r ŵyl
(b) ffotograffau o'r safle o'r awyr yn dangos yr unedau preswyl
(c) prif lwyfan mewn pabell
(d) pum ardal o ddigwyddiadau yn y safle fel ger y môr / arena'r pwll, y castell, gardd Tsieineaidd Portmeirion ac amryfal rannau o'r gerddi

Bydd yr ŵyl yn ceisio denu pobl rhwng 35 a 50 oed. Y bwriad oedd gwerthu tocynnau am y penwythnos cyfan gyda chyfleusterau fel 'gwersylla mewn steil' a gwersylla i deuluoedd yn cael eu cynnig. Rhagwelwyd na fyddai unrhyw symudiadau gan gerddwyr yn ystod yr ŵyl. Bydd tocynnau di-dâl yn cael eu cynnig i'r eiddo preswyl yn y cyffiniau gan y byddai'r ŵyl efallai yn achosi mymryn o anhwylustod iddynt. O ran yr adloniant, y prif grwpiau fyddai New Order, Spiritualized, Primal Scream, Gruff Rhys. Fe fyddai hefyd elfen Gymreig gref fyddai o fudd i'r economi lleol o ran contractwyr, arlwyo, perfformwyr ac ati.

O ran y cais a'r oriau a gynigiwyd, y bwriad oedd y byddai'r adloniant byw yn gorffen erbyn 11.00 p.m. ond byddai'r adloniant ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio yn parhau tan 3.00 a.m. mewn dwy babell ddawns. Byddai alcohol ar werth tan 4.00 a.m. yn ardal yr ŵyl ac yn y meysydd gwersylla. Byddai lluniaeth hwyr ar gael drwy gydol y nos tan 5.00 a.m.

Er hynny, roedd trafodaethau yn parhau rhwng y trefnwyr a'r swyddogion yn Adran Iechyd yr Amgylchedd i geisio dod i gytundeb am lefelau sŵn, ond hyd yma nid oeddent wedi dod i gytundeb.

Yn y fan yma yn ystod y Gwrandawiad, cyflwynwyd gwrthgynigion i Aelodau'r Panel ac i'r gwrthwynebwyr.

Roedd y gwrthgynigion fel a ganlyn:

(1) Adloniant am un 3 diwrnod dilynol mewn cyfnod o ddeuddeng mis ond yn gofyn am gymeradwyaeth i werthu alcohol ar y dydd Iau tan 4.00 a.m. fel yr ymgeisiwyd amdano yn y cais. Lluniaeth hwyr drwy gydol y nos.

(2) Ailsefydlu'r adloniant tan 3.00 a.m.

(3) O ran y lefelau sain, roedd Iechyd yr Amgylchedd yn gofyn am y mesurau lefelau desibel a ganlyn:

**Tabl 1**

| **Paramedr Mesur** | **Oriau a Ganiateir** | Lefel Ffasâd (dB) | Lefel maes rhydd (dB) |
|---|---|---|---|
| $L_{Aeq(15\ munud)\ (*)}$ | 10:00 – 23:00 | 65 | 62 |
| Band Wythfed 31.5Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band Wythfed 63 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band Wythfed 125 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |

**Tabl 2**

| **Paramedr Mesur** | **Oriau a Ganiateir** | Lefel Ffasâd (dB) | Lefel maes rhydd (dB) |
|---|---|---|---|
| $L_{Aeq(15\ munud)\ (*)}$ | 23:00-1:00 | 45 | 42 |
| Band Wythfed 31.5Hz (*) | 23:00-1:00 | 60 | 57 |
| Band Wythfed 63 Hz (*) | 23:00-1:00 | 60 | 57 |
| Band Wythfed 125 Hz (*) | 23:00-1:00 | 60 | 57 |

Er hynny, roedd y trefnwyr o'r farn fod 75dB yn lefel derbyniol mewn ardaloedd gwledig a hefyd o ran y cyfyngiad yn y nos byddai lefel o 49dB yn gyfyngiad mwy derbyniol.

O ran goruchwylio'r safle, byddai ffens ddiogel o'i amgylch ac ni fyddai pobl yn cael mynediad heb fod ganddynt y bandiau arddwrn a'r tocynnau priodol. Roedd cytundeb gyda Heddlu Gogledd Cymru oedd yn golygu y byddai'r heddlu ar safle'r ŵyl. Byddai'r trefnwyr yn cyflogi cwmni profiadol o ran diogelwch a goruchwylio'r safle. O safbwynt iechyd a diogelwch, roedd cyfarfodydd wedi eu cynnal ac fe fyddent yn parhau. Byddai cyfyngiadau gyda dim gwydr yn mynd ar y safle ac ni fyddai unrhyw wydr yn cael ei werthu yn y bariau. Byddai hefyd lwybr golau glas i draffig pe byddai unrhyw argyfwng.

O ran y traffig, byddai cynllun parcio a chludo yn cael ei weithredu.

Roedd ymgynghori wedi digwydd gan fod y trefnwyr yn ymwybodol o’r lleoliad gwledig ac y gallai pobl gael eu heffeithio gan yr ŵyl. Anfonwyd llythyr i 300 eiddo yn yr ardal yn ystod Chwefror/Mawrth a chynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 29.03.12 ble gafodd trigolion gyfle i drafod unrhyw bryderon. Roedd hysbysiadau glas wedi eu harddangos o amgylch y safle. Pwysleisiwyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad gan yr Heddlu na’r Gwasanaeth Tân a’r unig ddau bryder oedd y ddau wrthwynebiad. Roedd un wedi ei gyflwyno gan Iechyd yr Amgylchedd am niwsans cyhoeddus posib ac roedd y llall yn wrthwynebiad gan un o’r trigolion.

O safbwynt y gwrthwynebiadau preswyl, roedd dau wrthwynebiad wedi eu derbyn. Portmeirion yw perchennog mwyafrif yr eiddo ar y penrhyn ond hefyd roedd eiddo unigol preifat a gofynnwyd i’r Is-bwyllgor i gyfeirio at gynllun y safle pan esboniwyd yn fanwl gan Mr Williams am yr eiddo fyddai'n cael eu heffeithio gan yr ŵyl. Mr a Mrs Woods o Blas Canol oedd y bobl fyddai’n cael eu heffeithio fwyaf o’r ŵyl ac roeddent wedi codi pryderon am sŵn a niwsans oedd yn ddealladwy, ond ar ôl cyfarfod adeiladol iawn roeddent wedi tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl. Roedd y trefnwyr wedi rhoi dewis iddynt os nad oeddent am fod yn eu heiddo yn ystod yr ŵyl, roeddent wedi cael cynnig iawndal ariannol er mwyn adleoli yn ystod cyfnod yr ŵyl.

Derbyniwyd y gwrthwynebiad arall gan Mr de Thierry, roedd ganddo ef ddiddordeb fel perchennog eiddo rhent cyfagos o’r enw Hafod Cae Maen. Datganwyd fod Mr de Thierry yn byw yn Llundain. Er hynny, roedd wedi cytuno i rentu ei eiddo i gyfarwyddwyr yr ŵyl am ffi a blaendal sylweddol.

Roedd Mr de Thierry hefyd yn mynnu £10,000 fel iawndal am bob blwyddyn roedd yr ŵyl yn cael ei chynnal gan ei fod o’r farn y byddai'r eiddo yn gostwng yn ei werth. Prysurodd Mr Williams i ychwanegu nad oedd hyn yn ystyriaeth o ran trwyddedu ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau’r rheswm yma. Roedd Mr de Thierry yn gofyn am £2,500 am yr amser roedd wedi ei dreulio yn ymdrin gyda’r gwrthwynebiad yma ac roedd hefyd yn dymuno i goed gael eu torri fel y gallai’r eiddo gael golygfa o’r aber. Roedd hefyd eisiau i’r ffordd breifat gael wyneb newydd gan drefnwyr yr ŵyl ac roedd y rhain i gyd yn symiau sylweddol ond nid yn faterion trwyddedu. Roedd Mr Williams o’r farn fod gan Mr de Thierry y pryderon hyn ond os fyddai’n cael iawndal ariannol byddai’n tynnu ei wrthwynebiad yn ôl. Gofynnodd Mr Williams i’r Pwyllgor ddiystyru gwrthwynebiadau Mr de Thierry.

2.5 Gwnaed y cyflwyniadau a ganlyn i gefnogi’r cais.

(a) Roedd Mr David Trefor Jones yn gweithredu ar ran Vanguardia Consulting ac yn rhedeg ymgynghoriaeth acwstig annibynnol yn arbenigo ym maes sŵn ac acwstig oedd yn ymwneud â lleoliadau adloniant. Dywedwyd fod gan y tîm o ymgynghorwyr nifer o flynyddoedd o brofiad yn ymdrin â rhai o’r prosiectau mwyaf yn y Deyrnas Gyfunol, yn cynnwys Stadiwm Wembley, Cromen y Mileniwm ac ati, ac roeddent wedi llunio cynllun rheoli sŵn i’r ŵyl uchod.

Roedd Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi argymell cyfyngiadau sain o 65dB i’r adloniant a reolir yn ystod y dydd tan 11.00 p.m. wedi ei fesur yn ffasâd yr eiddo preswyl agosaf. Er hynny, roedd y gwrthgynnig gan Vanguardia yn 75dB. Rhoddwyd cyfle i Mr Jones esbonio pam roedd Vanguardia o’r farn fod 75dB yn lefel dderbyniol ac ni fyddai yn achosi niwsans. Er bod Adran Iechyd yr Amgylchedd wedi pennu cyfyngiadau lefel sain yn ôl canllawiau’r cod pop, dywedodd Mr Jones fod llawer wedi ei ddysgu ers cyhoeddi’r cod yn 1995 ac roedd o’r farn fod rhagdybiaeth yn y cod fod lleoliadau gwledig yn fwy sensitif i sŵn na lleoliadau trefol. Felly, roedd y tabl o lefelau sain a argymhellwyd o 75dB i stadiwmau ac arenas tra bod cyfyngiad o 65dB yn cael ei argymell i ardaloedd trefol a gwledig eraill. Aeth Mr Jones yn ei flaen i ddweud mai’r sail i hyn oedd tybiaeth a fawr mwy. Gwelwyd nad y lleoliad oedd yn sensitif i sŵn ond yr ŵyl. Felly, dylai 65dB gael ei lacio ar sail profiad ers 1995.

O ran cyfyngiad amledd isel o 45dB roedd Vanguardia yn gofyn am beidio pennu cyfyngaid amledd isel gyda rhif gan y byddai'n well ganddynt reoli'r lefel sain ar y dydd a gellid gwneud hyn drwy ymgynghori, drwy ymateb i unrhyw gŵyn a byddai hyn yn llawer mwy effeithiol ac yn rhoi hyblygrwydd ar y dydd.

Aeth Mr Jones yn ei flaen i ehangu ar sut roedd Vanguardia yn penderfynu ar y dB fel rhan o'r cynllun rheoli sain ac roedd o'r farn fod y rhagolygon yn oramcangyfrif a byddent yn cydymffurfio gyda'r cyfyngiad sain o 75dB yn ystod y dydd.

Lleolir Plas Penrhyn, un o'r tai a ddewiswyd i'w profi gan Adran Iechyd yr Amgylchedd dros grib y bryn ac roedd yn manteisio o'r effaith rhwystr o dyweder 10dB o wanhad ychwanegol i'r eiddo eraill. Roedd dau eiddo arall bellach wedi arwyddo llythyrau i beidio cael eu cynnwys yn y gwaith profi. O ran y lefelau sain yn ystod y nos, roedd y ffigwr o 45dB wedi dod o ymchwil pellach gan DEFRA pan gafodd sain adloniant bob dydd ei ymchwilio. Bydd pobl sy'n byw ger clybiau a thafarndai gaiff eu heffeithio gan sŵn yn goddef lefel o 34dB yn eu hystafell wely gyda gwahaniaeth o 15dB y tu allan i'r ffenestr.

Aeth Mr Jones yn ei flaen i ehangu ar sut i gael lefel o 49dB a sut byddai'r systemau yn cael eu profi a'u monitro yn y digwyddiad. Byddai cyfle i fireinio'r system sain ei hun, ac os oedd angen i ddiffodd y blychau sain. Byddai llinell ffôn cwynion 24 awr ar gael a byddai'n ddefnyddiol pe byddai Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ar y safle.

(b) Cafodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd gyfle i ymateb i'r sylwadau uchod a chadarnhaodd fod y lefelau sain a argymhellwyd yn unol â'r Cod Pop gan mai dyma'r ddogfen berthnasol a ddefnyddiwyd mewn ardaloedd gwledig yng Ngwynedd ac roedd yn ymddangos i fod yn gweithio yn llwyddiannus. Roedd yn anghytuno gyda'r farn am y cyfyngiad amledd isel, ac nid oedd yn dymuno gadael hyn yn benagored gan y byddai'n llawer gwell cydymffurfio â'r canllawiau a nodwyd.

I ateb cwestiwn gan Aelod o'r Pwyllgor, dywedodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd fod gan Ŵyl y Faenol yng Ngwynedd ei thrwydded ei hun ac roedd Gŵyl Wakestock wedi cael cyfyngiad o 70dB ond cafwyd cwynion lleol o'r ardal yn ystod yr ŵyl hon am niwsans cyhoeddus.

Ychwanegodd y gallai nifer o ffactorau effeithio ar y lefelau sain fel cyfeiriad y gwynt, adeiladau, bryniau ond ychwanegodd mai ychydig iawn o wahaniaeth roedd coed yn ei wneud i atal sŵn.

(c) Ar ran Outgoing, rhoddodd Mr Alex Bennett fanylion i'r cyfarfod am gysyniad a dyluniad yr Ŵyl oedd yn cynnwys trefnu'r perfformwyr, llwyfannu ac ati. Dywedodd y byddai'r prif lwyfan yn parhau tan 11.00pm gyda'r perfformwyr eraill yn parhau tan 3.00am. Yn ei brofiad ef, roedd cyfyngiadau ar drwydded yn gallu achosi trafferth gan fod ychydig o filoedd o bobl yn gallu bod yn swnllyd yn y safle gwersylla heb unlle i fynd a dim i'w wneud. Drwy gau yr ŵyl yn raddol roedd o'r farn y byddai hyn yn golygu y byddai pobl yn tawelu, yn nôl bwyd ac ati gan eu hatal rhag crwydro i leoliadau eraill fel pentref Portmeirion.

(d) Dywedodd Mr Robin Llywelyn, Cyfarwyddwr Portmeirion, mai dyhead ei ddiweddar daid, Syr Clough Williams-Ellis, oedd bod Portmeirion yn dod yn lleoliad i ddigwyddiadau oherwydd ei fod yn lle unigryw. Roedd cyfle gyda'r ŵyl hon i wireddu rhai o'r dyheadau hynny. Gan nad oedd yn arbenigwr ar drefnu gwyliau roedd Mr Llywelyn wedi llunio partneriaeth gydag arbenigwyr yn y maes a drwy hynny adeiladu seilwaith i ymdrin â diogelwch, trefniadaeth ac ati. Byddai hyn yn gyfle gwych i'r ardal ac yn rhoi Meirionnydd ar y map fel pe tai. Pwysleisiodd Mr Llywelyn nad oedd yn dymuno i'r ŵyl ymyrryd nac amharu ar y safle. I'r perwyl hwn roedd y gymuned yn gefnogol iawn yn ogystal â chlybiau chwaraeon a pharciau carafán yn yr ardal. Esboniodd Mr Llywelyn nad oedd yn dymuno gweld pobl yn cicio eu sodlau tua 1.00 o'r gloch y bore ac roedd hi'n bwysig iddo fod y cais yn cael ei ganiatáu gan fod cefnogaeth gan bawb, ac eithrio un, o'r tai preifat yn y cyffiniau. Roedd y berthynas rhwng Portmeirion a'r cymdogion yn

bwysig iawn i Mr Llywelyn ac roedd wedi ymweld â phob un ohonynt yn bersonol ac roedd y gefnogaeth wedi bod yn arbennig. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r cymdogion pwysleisiodd y byddai diogelwch 24 awr ar y safle. Yn y gorffennol, roedd Mr Llywelyn wedi gweithio'n agos gyda Mr de Thierry ac roedd yn siomedig iawn nad oedd yn cefnogi'r ŵyl ac nid oedd unrhyw gyfiawnhad i'w wrthwynebiad. Roedd o'r farn na fyddai unrhyw niwsans yn cael ei greu gan nad yw'r lleoliad yn effeithio ar y cyhoedd ac roedd trigolion y safle wedi derbyn tocynnau rhad ac am ddim a byddent ar y safle beth bynnag.

2.6 Ail-ddatganodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd ei fod yn gwrthwynebu'r cais oherwydd nad oeddent wedi dod i gytundeb gyda Vanguardia am fesurau boddhaol i reoli'r lefelau sain arfaethedig. O'r herwydd roedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ynglŷn â chaniatáu'r cais.

2.7 Cymerodd Mr John Payne, Cyfreithiwr oedd yn gweithredu ar ran Mr de Thierry y cyfle i gyfeirio at y llythyr dyddiedig 26 Mehefin 2012, oedd yn y papurau a gyflwynwyd i Mr Heilyn Williams. Dywedodd ei fod yn dymuno cywiro'r dybiaeth fod Mr de Thierry yn hollol wrthwynebus i'r ŵyl. Nid oedd ei gleient yn gwrthwynebu'r ŵyl; roedd ei wrthwynebiad yn ymwneud â'r modd yr oedd yr ŵyl yn cael ei threfnu a'r effaith ar Mr de Thierry a'i eiddo. Petai modd trefnu'r digwyddiad mewn ffordd nad oedd yn peri unrhyw aflonyddwch i Mr Thierry a'i eiddo, yna ni fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad i gymeradwyo'r cais am drwydded. Anfonwyd llythyr at y trefnwyr ond nid oedd unrhyw wrthgynigion wedi eu cytuno.

Tynnodd Mr Payne sylw at y materion a ganlyn i'w hystyried gan y Pwyllgor, a allai leddfu pryderon ei gleient:

(a) Pennu cyfyngiadau mwy llym ar y lefelau sŵn, gan fod y rhai a gynigiwyd yn afrealistig o ran gwarchod rhag peri niwsans i'r cyhoedd yn yr ardal.

(b) Caniatáu'r drwydded am un flwyddyn gan roi cyfle i'r trefnwyr ddangos eu bod yn gallu trefnu digwyddiad yn llwyddiannus.

(c) Pennu lleoliad gwersylla arall ymhellach oddi wrth eiddo'i gleient, o ganlyniad i'r posibilrwydd o bobl yn creu aflonyddwch wrth ddychwelyd i'r maes gwersylla. Gan fod eiddo Mr de Thierry yn ffinio â'r ardal wersylla, nid oedd unrhyw sôn am fesurau i rwystro pobl rhag crwydro a thresmasu ar ei eiddo.

Yr oedd Mr Payne hefyd yn ymwybodol fod addasiadau i'r cais wedi'u cyflwyno ar ddiwrnod y gwrandawiad, nad oedd unrhyw asesiad o'r maes gwersylla wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynigion hyn, ac nad oeddynt wedi'u darparu i berchnogion eiddo preswyl eraill.

2.9 Rhoddodd Mr de Thierry amlinelliad cryno o'i gefndir a'i gysylltiadau â'r ardal. Aeth yn ei flaen i ddweud sut yr oedd wedi prynu Hafod Cae Maen ac roedd wedi ei droi yn fusnes hunanarlwyo. Pwysleisiodd, er ei fod yn byw yn Llundain, nad oedd yn rhywun o'r tu allan a'i nod tymor hir oedd ymddeol i Hafod Cae Maen.

O safbwynt y busnes, roedd Mr de Thierry wedi clywed yn gyntaf am yr ŵyl pan roedd wedi clywed cyhoeddiad ar y radio wedi i'r ymgynghori dechreuol ddigwydd. Roedd o dan yr argraff gan y cymdogion y byddent yn gorfod gwersylla o amgylch eu tai. Cysylltodd Meurig Jones, Rheolwr Stad, Portmeirion gyda Mr de Thierry pan gafodd wybod am y ffaith fod y gwersylla o flaen ei eiddo ac i'r chwith ohono. Roedd hyn yn sioc fawr gan fod rhan o'r 7,500 o bobl yn mynd i wersylla o flaen y tŷ a'i feddyliau cyntaf oedd am ei westeion – roedd y tŷ wedi ei gadw i barti pen-blwydd 60 oed yn ystod yr Ŵyl arfaethedig. Cysylltodd Mr de Thierry â chwmni Ear to the Ground a chyfarfu â nhw yn Llundain a gadawodd y cyfarfod gyda dau bryder mawr:

1. Yr effaith y byddai'r Ŵyl yn ei chael ar leoliad tawel fel Hafod Cae Maen.

2. Pe byddai yn cael ei orfodi i werthu'r eiddo roedd Mr de Thierry yn dychmygu y byddai nifer o bobl yn cael eu rhwystro rhag prynu'r eiddo oherwydd yr ŵyl, oherwydd niwsans sŵn difrifol am gyfnod llawn o bythefnos ac felly yn achosi i'w fuddsoddiad leihau.

Pwysleisiodd Mr de Thierry nad arian oedd yn ei yrru ac roedd yn dymuno'n dda i'r economi lleol ac roedd o blaid mentrau o'r fath, ond roedd yn credu mewn bod yn gymydog da. I'r perwyl hwn, roedd yn cynnal garddwest flynyddol ar ei gost ei hun i ymddiheuro i'w gymdogion am beidio bod yn Hafod Cae Maen ac i ddiolch iddynt am fod yn gymdogion da.

O ran ei fusnes, cadarnhaodd Mr de Thierry fod yr ŵyl wedi rhentu'r eiddo ond roedd y rhent am yn union yr un rhent a fyddai gwesteion eraill yn ei dalu ond roedd wedi cynyddu'r blaendal oherwydd bod patrwm o bethau oedd heb eu gwneud yn iawn gyda threfnu'r ŵyl. Roedd hefyd yn bryderus am gyflwr y tir ar ôl yr ŵyl oherwydd y glaw trwm a gafwyd yn ddiweddar.

I gloi, dywedodd Mr de Thierry pe byddai'r ŵyl yn cytuno i adleoli'r maes gwersylla byddai yn ystyried tynnu ei wrthwynebiad yn ôl.

2.11 I ateb yr uchod, dywedodd yr ymgeiswyr y byddai ffensio dwbl gyda ffos 10 metr i atal pobl rhag crwydro. Byddai'r maes gwersylla o flaen eiddo Mr de Thierry yn cael ei bennu i 'wersylla mewn steil' ac amcangyfrifwyd mai'r uchafswm o bebyll yno fyddai 100 i oddeutu 400 o bobl. Nid oedd unrhyw safle arall a ellid ei ddefnyddio ac ni fyddai'n bosibl adleoli'r gwersyllwyr. Rhoddwyd sicrwydd y byddai digon o le gwersylla yn y caeau oedd wedi eu pennu.

2.10 Dywedodd Ms Hanna Ross-Morris fod adfer y tir yn broses sydyn o'i phrofiad hi o weithio mewn gwyliau eraill fel Glastonbury. Roedd y glaswellt yn tyfu'n ôl yn sydyn mewn ychydig o wythnosau ac roedd Gŵyl Rhif 6 wedi cytuno gyda'r ffermwr i dalu i roi'r tir yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol.

Cyn belled ag yr oedd dwyster y gwersylla dan sylw, byddai angen cyfrif y niferoedd a dywedodd y byddai'n nerfus iawn pe byddai angen symud y maes gwersylla mor hwyr yn y dydd.

Gadawodd y gwahanol garfanau'r cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau o'r Is-bwyllgor gan roi ystyriaeth i'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd ac i egwyddorion y Ddeddf.

**<u>Y Penderfyniad.</u>**

Ymneilltuodd yr Is-bwyllgor i ystyried ei benderfyniad. Wrth ddod i'w benderfyniad, rhoddodd ystyriaeth i'r pedwar amcan trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003, ynghyd â pholisi trwyddedu'r Cyngor a'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Trwyddedu.

<u>Atal trosedd ac anhrefn</u>

Gan fod hwn yn gais ar gyfer math newydd o ddigwyddiad yn yr eiddo, yn amlwg nid oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau yn y gorffennol. Fodd bynnag, ystyriodd yr Is-bwyllgor yr oblygiadau o gynnal digwyddiad o'r math a'r maint hwn. Ystyriodd y darpariaethau y dywedodd yr ymgeisydd y byddai'n eu rhoi mewn lle, a'u bod yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn addas o dan yr amgylchiadau. Yr oedd hefyd yn arwyddocaol nad oedd yr heddlu'n gwrthwynebu'r trefniadau. O ganlyniad i hyn, nid oedd unrhyw reswm dros wrthod y cais o dan y pennawd hwn.

Diogelwch y cyhoedd

Ystyriodd yr Is-bwyllgor y darpariaethau y datganodd yr ymgeisydd y byddai'n eu rhoi mewn lle, a chanfod eu bod yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn addas o dan yr amgylchiadau. Nid oedd unrhyw dystiolaeth y byddai diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu. Yr oedd darpariaethau'n ymwneud ag agweddau tân ac iechyd a diogelwch yn faterion y tu hwnt i'w gylch gorchwyl, ac yn destun deddfwriaeth arall.

Atal Niwsans Cyhoeddus

Hwn oedd y mater a oedd yn peri'r mwyaf o bryder a rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth fanwl iawn i hyn. Oherwydd anghytundeb ar sail dechnegol rhwng gweithwyr proffesiynol ynghylch y lefelau cyfyngu sŵn, penderfynodd yr Is-bwyllgor y dylid cytuno i'r egwyddorion a gyflwynwyd gan y SIA yn seiliedig ar y ddogfen arweiniol gydnabyddedig gyfredol. Fodd bynnag, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn, o ystyried natur yr eiddo, pe bai'r lefelau sŵn yn dderbyniol am 01:00 yna byddant yr un mor dderbyniol ar amser hwyrach ac felly ni chytunwyd â'r awgrym i gwtogi'r oriau. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn hefyd, gan gofio natur y digwyddiad, y byddai dod â phethau i ben yn raddol ac yn systematig yn galluogi gwell rheolaeth dros y sawl fyddai'n mynychu'r ŵyl a'u symudiadau o gwmpas y safle. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i wrthwynebiadau Mr de Thierry ac nid oedd yr is-bwyllgor am i'r gwersylla beri aflonyddwch. Fodd bynnag, gan nad oedd tystiolaeth o unrhyw broblemau, ac nad oedd modd tybio y gallai problemau godi, rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r mesurau diogelu y byddai'r ymgeisydd yn eu rhoi mewn lle, ac ymddengys fod y rhain yn addas dan yr amgylchiadau hyn. Ni allai'r Is-bwyllgor felly wrthod ar sail pryderon y gwrthwynebydd. O ran caniatáu trwydded ar gyfer un achlysur yn unig rhag ofn y byddai problemau'n codi, nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael a fyddai'n sail i wneud hyn ac roedd yr Is-bwyllgor yn ystyriol o'r ffaith fod y drefn adolygu ar gael dan y Ddeddf Trwyddedu.

Amddiffyn Plant rhag Niwed

Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth berthnasol yn ymwneud â'r amcan trwyddedu hwn.

**Felly, yn dilyn rhoi ystyriaeth fanwl i'r cais, yn unol â'r egwyddorion a amlinellir yn Neddf Trwyddedu 2003, penderfynwyd caniatáu'r drwydded eiddo fel a ganlyn:-**

- **Bydd y caniatâd a roddir gan yr awdurdod trwyddedu yn berthnasol i un cyfnod o bedwar diwrnod olynol (72 awr) o fewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis. Dim ond gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos (LNR) a ganiateir ar y diwrnod cyntaf o 10.00 hyd 04.00 (alcohol) a 23.00 hyd 05.00 (LNR).**

- **Caniateir adloniant ar ffurf dramâu, ffilmiau, cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio rhwng 10.00 a 03.00 y bore canlynol ar yr ail, y trydydd a'r pedwerydd diwrnod. Caniateir gwerthiant alcohol a lluniaeth hwyr y nos ar yr ail, y trydydd a'r pedwerydd diwrnod o 10.00 hyd 04.00 (alcohol) a 23.00 hyd 05.00 (LNR).**

- **Bydd y drwydded yn cynnwys y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Weithredu (paragraff P) y cais fel amodau.**

- **Ni fydd lefel y sŵn a gynhyrchir gan adloniant y digwyddiad yn uwch na'r lefelau a restrir yn nhabl 1 isod, rhwng 10.00am a 23.00 yn yr eiddo penodol.**

**Tabl 1**

| Paramedr Mesur | Oriau a Ganiateir | Lefel Ffasâd (dB) | Lefel maes rhydd (dB) |
|---|---|---|---|
| $L_{Aeq(15\ munud)}$ (*) | 10:00 – 23:00 | 65 | 62 |
| Band Wythfed 31.5Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band Wythfed 63 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |
| Band Wythfed 125 Hz (*) | 10:00 – 23:00 | 70 | 67 |

- **Ni fydd lefel y sŵn a gynhyrchir gan adloniant y digwyddiad yn uwch na'r lefelau a restrir yn nhabl 2 isod, rhwng 23.00 a 03.00 yn yr eiddo penodol.**

**Tabl 2**

| Paramedr Mesur | Oriau a Ganiateir | Lefel Ffasâd (dB) | Lefel maes rhydd (dB) |
|---|---|---|---|
| $L_{Aeq(15\ munud)}$ (*) | 23:00 - 3:00 | 45 | 42 |
| Band Wythfed 31.5Hz (*) | 23:00 - 3:00 | 60 | 57 |
| Band Wythfed 63 Hz (*) | 23:00 - 3:00 | 60 | 57 |
| Band Wythfed 125 Hz (*) | 23:00 - 3:00 | 60 | 57 |

**Eiddo**

**Borthwen Fawr/Fach (LL48 6EN)**
**Hafod Cae Maen (LL48 6EP)**
**Plas Penrhyn (LL48 6HY)**
**Beudy Gwyn (LL48 6EN)**

- **Caniateir profion ymlediad sŵn. Ni chaiff profion o'r fath bara am fwy na chyfanswm o 10 awr, wedi'u cynnal rhwng 9.00 a 17.00. Bydd y profion yn cael eu defnyddio i sefydlu a oes cydymffurfiaeth ag amodau 3 a 4 ai peidio.**

- **Rhoddir gwybod yn ysgrifenedig i breswylwyr lleol am ddyddiadau ac amseroedd y digwyddiad, i gynnwys profion ymlediad sŵn. Gwneir hyn o leiaf 20 diwrnod cyn y digwyddiad. Bydd preswylwyr lleol hefyd yn derbyn rhif ffôn i'w ddefnyddio i gwyno am niwsans sŵn yn ystod digwyddiad. Cedwir cofnod o alwadau o'r fath a byddant ar gael i'r Awdurdod Trwyddedu yn ôl y gofyn.**

- **Bydd deilydd y drwydded yn cyflogi ymgynghorydd/peiriannydd rheoli sŵn profiadol a chymwys i sicrhau y cydymffurfir ag amodau 3 a 4, cyn y digwyddiad, ac yn ystod y digwyddiad. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymeradwyo'r penodiad o leiaf 4 wythnos cyn unrhyw ddigwyddiad.**

- **Bydd deilydd y drwydded yn sicrhau bod hyrwyddwr y digwyddiad, cyflenwr y system sain a'r holl beirianyddion sain sydd ar y safle yn ymwybodol o'r amodau sŵn ac o unrhyw gyfarwyddiadau gan yr ymgynghorydd / peiriannydd rheoli sŵn.**

- **Bydd yr ymgynghorydd/ peiriannydd rheoli sŵn yn trefnu i lefelau sŵn gael eu monitro'n rheolaidd yn y lleoliadau a nodir yn amod 3/ 4 yn ystod cyfnodau ble y cynhelir adloniant. Bydd ef/hi yn rhoi cyngor addas i'r peirianyddion sain yn unol â chanlyniadau'r monitro er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau. Bydd canlyniadau monitro o'r fath ar gael i Gyngor Gwynedd yn ôl y gofyn drwy gydol y digwyddiad.**

- **Bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn adroddiad o fewn cyfnod o 4 wythnos ar ôl y digwyddiad. Bydd yr adroddiad yn rhoi manylion y lleoliadau ble y cwblhawyd y gwaith monitro sŵn, pa gyfarpar a ddefnyddiwyd, y tywydd (gan gynnwys cyflymder a chyfeiriad y gwynt) a'r lefelau mesur.**

- **Bydd unrhyw fesuriadau sain a gyflawnir i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau yn cael eu cynnal yn unol ag arweiniad Safon Prydeinig 3142:1997.**

***(* Diffinnir y paramedr mesur $L_{Aeq}$ fel a ganlyn;***

***'Cyfwerth lefel sŵn parhaus dros gyfnod penodol o amser mewn lleoliad penodol sydd â'r un lefel o ynni sŵn wedi'i fesur â phwysiad "A" â'r sŵn anwadal go iawn, wedi'i fesur am yr un cyfnod o amser ac yn yr un lleoliad.'***

***Ni ddylid defnyddio pwysiad amledd wrth gwblhau mesuriadau band wythfed. Dylai mesuriadau'r band wythfed (amleddau canol) 31.5 hert, 63 hert a 125 hert fod yn rhai llinellog.)***

- **10,000 fydd uchafswm y nifer o bobl yn y digwyddiad (heb gyfrif yr artistiaid a'r staff).**

- **Bydd arolwg coed yn cael ei gomisiynu'n flynyddol ar gost deilydd y Drwydded Eiddo. Bydd yr arolwg yn cynnwys yr holl goed o fewn safle'r digwyddiad (gan gynnwys coed ar dir preifat sy'n ffinio â safle'r digwyddiad). Bydd unrhyw waith adfer angenrheidiol yn cael ei gyflawni cyn dechrau'r digwyddiad, neu, pan nad yw hyn yn bosib o fewn yr amser sydd ar gael, bydd parth diogel y cael ei chreu i atal mynediad i'r cyhoedd i unrhyw ardal sy'n peri risg.**

Dywedodd y Cyfreithiwr y byddai'n ceisio anfon llythyr cyn pen pum niwrnod gwaith i hysbysu'r ymgeiswyr a'r carfanau oedd â diddordeb am benderfyniad yr Is-bwyllgor ac i roi gwybod iddynt am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad cyn pen 21 diwrnod o dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.15 pm a daeth i ben am 6.15 pm.